## Cynllun Absenoldeb Effaith Ymchwil

**Mae Cynllun Absenoldeb Effaith Ymchwil y Brifysgol yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol i "fuddsoddi mewn effaith ymchwil"**

Mae'r cynllun yn galluogi staff i neilltuo cyfnod o hyd at 6 mis i fanteisio, ar gyflog llawn, ar gyfleoedd effaith arfaethedig sy'n codi o waith ymchwil, a thalu rhywun i gyflenwi'r gwaith dysgu o'r gronfa. Mae'r FfRhY yn cydnabod y gall fod oedi yn aml rhwng canlyniadau ymchwil a chyfleoedd effaith yn codi ac felly rydym yn annog ceisiadau gan staff sydd wedi cwblhau cyfnod o absenoldeb ymchwil yn y 18 mis diwethaf, neu sydd wedi cwblhau darn o waith ymchwil yn ystod y 18 mis diwethaf a bod cyfleoedd effaith yn debygol o ddeillio o'r gwaith hwnnw.

**Mae'r amser a dreulir ar gyfnod Absenoldeb Effaith Ymchwil yn cyfrif tuag at groniad Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, hynny yw fel rhan o'r cyfnod o wasanaeth parhaus dros wyth semester.**

Ni olygir iddo gymryd lle Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, ond fe all ei wneud yn gyflawn. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i ychwanegu at gyfnod o absenoldeb Adrannol cronnus neu amser a brynwyd gan grantiau ymchwil, i ddatblygu effaith ymchwil sy'n codi ohono ymhellach.

Pwrpas yr absenoldeb hwn o ddyletswyddau'r Brifysgol fyddai er mwyn galluogi'r ymchwilydd i neilltuo cyfnod estynedig i ddatblygu effaith sy'n codi o ddarn o waith ymchwil. Gall gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithgareddau sy'n cynnal ymgysylltu, gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, ayyb. Nid bwriad y cynllun hwn yw i roi amser i staff ysgrifennu astudiaethau achos effaith ar gyfer y FfRhY a dylai sgyrsiau o'r fath gymryd lle gyda'r rheolwr llinell priodol er mwyn eu cynnwys yn y Model Dyrannu a Rheoli Llwyth Gwaith.

Cyflwynir pum gwobr bob blwyddyn. Rhoddir gwobrau yn unig i geisiadau sy'n dangos potensial i gynhyrchu effaith ymchwil sylweddol iawn o ran cyrhaeddiad ac arwyddocâd e.e. yn cyfrannu at astudiaeth achos effaith ymchwil 3* (o leiaf) ar gyfer cyflwyniad FfRhY y Brifysgol.

Dyma'r drefn ar gyfer ymgeiswyr:

- Dylai aelodau staff gael sgwrs cyn gwneud cais â'r Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith Ymchwil (hmr@aber.ac.uk). Argymhellir cael sgwrs â Swyddog Effaith Ymchwil yn ogystal.
- Dylai ymgeiswyr ddefnyddio Ffurflen Gais am Absenoldeb Effaith Ymchwil, a chyflwyno llythyr sy'n amlinellu achos yr ymgeisydd dros fod yn gymwys ar ei gyfer, a *Ffurflen CELl* ar gyfer costau cyflenwi dysgu ar 0.7 CALl, Gradd 6 am 6 mis (neu gost gyfatebol ar radd uwch a llai o oriau). Dim ond yr adrannau sy'n berthnasol i'r gweithgarwch effaith arfaethedig y dylid eu llenwi ar y ffurflen absenoldeb ymchwil. Er enghraifft, ni ddisgwylir ichi lenwi'r adrannau am Gyhoeddiadau Arfaethedig neu Geisiadau Arfaethedig ar gyfer Grantiau.
- Dylid cyfeirio'r ceisiadau at y Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith Ymchwil yn y lle cyntaf, i'w hadrodd wrth Grŵp Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil. Anfonwch e-bost at ymchwil@aber.ac.uk.
- Rhaid cyflwyno Adroddiad Terfynol wedi'i gyfeirio at y Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith Ymchwil ar ddiwedd y cyfnod o absenoldeb effaith ymchwil. Eto, anfonwch e-bost at ymchwil@aber.ac.uk.

Rhaid cyflwyno ceisiadau i'w hystyried gan Grŵp Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil o leiaf 3 mis cyn dechrau'r semester y gofynnir am absenoldeb ohono. Felly, dylid derbyn ceisiadau ar gyfer absenoldeb yn semester 1 erbyn diwedd Mai i'w hystyried yng nghyfarfod Mehefin Grŵp Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil, a dylid derbyn ceisiadau ar gyfer absenoldeb yn semester 2 erbyn diwedd Medi i'w hystyried yng nghyfarfod mis Hydref Grŵp Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil.

Ionawr 2020